## YR WYDDFA

Ceir rhai ardaloedd o greigiau anferth yn yr ardal, un wyneb enfawr o graig yw'r Lliwedd; tra bo Crib y Ddysgl yn gymysgedd enfawr o lethrau sgri, clogwyni a drysni caregog. Fodd bynnag, yr un sy'n sefyll allan yw Clogwyn Du'r Arddu, safle rhai o'r chwiliadau botanegol cynharaf yn y mynyddoedd. Tra bo'r clogwyni uchel yn aml a gorchudd o rew ac eira ar adegau, mae'r clogwyni isaf dal yn sefyll allan, gyda Dinas Mot yn fwyaf amlwg.

**Castell SH 626513**

Unwaith eto, bu yna *gastell* 'bryngaer' hynafol ar ben y graig. Craig ddelfrydol ar gyfer amddiffynfa gan fod creigiau'n codi'n serth ar dair ochr iddi a'i bod yn edrych dros y dyffryn islaw.

**Clogwyn y Barcut SH 629516**

Anodd penderfynu pa aderyn y'n gysylltiedig â'r gair *barcud, barcut*; fe all y gair ddynodi'r boda, boncath: *Buteo buteo.* Yn gysylltiedig a'r Cernyweg Canol *bargos*, Hen Lydaweg *barcot.*

**Clogwyn Brith SH 641518**

*Clogwyn* 'craig serth, diffwys', mae'r elfen gyntaf yn gysylltiedig a Chernyweg *clog* 'craig serth', Gwyddeleg *cloch* 'maen, carreg'. Fe all y gair brith ddynodi craig amryliw neu gymysgedd o sgri, creigiau a llystyfiant.

**Clogwyn y Bustach SH 651535**

Arferid cadw da byw yn yr awyr agored hyd yn oed yn oerni'r gaeaf. Fe welir geiriau ac enwau sy'n gysylltiedig â gwartheg yn aml, oherwydd eu pwysigrwydd i ffermwyr cynnar.

**Clogwyn Coch SH 605555**

Pa liw? Mae coch yn un o'r geiriau a ddefnyddir ar ei gyfer sawl lliw.

**Clogwyn Du SH 606533**

Nid *du* 'tywyll', na *du* 'cysgod yr haul' chwaith; mae'r clogwyn yn ddu oherwydd ei wlybaniaeth,

**Clogwyn Du'r Arddu SH 600595**

Mae'r rhan gyntaf, sef y Clogwyn Du yn ddisgrifiad syml, yr elfen *arddu* sydd angen sylw. Ar un adeg *ar*- 'uwch' + *du* 'tywyll, dychrynllyd' oedd y rhesymeg. Yn hwyrach, yr oedd rhai yn tybio mai ffurf fel *ardd* 'uchel' + *du* 'tywyll, dychrynllyd' oedd. Nodwch bo'r elfen *ardd* yn gyfystyr a Gwyddeleg *ard* 'uchel, uchder, penrhyn', *airde* 'uchder'. Ond mae'r elfen *arddu* 'uchder' yn ffurf gynharach o bob tebyg, yn deillio o'r Frythoneg **ardu* 'uchder, bryn', o'r Celtaidd **ardwo*- 'uchel'. Felly, dim ond un elfen sydd, nid oes angen ychwanegu elfennau fel y + du.

Yn y gorffennol, ni wnaeth datganiadau fel sy'n dilyn helpu pethau: '*Ar* signifies "ploughed land." *Arddu* to plough.' The Place-names of Wales, Thomas Morgan (1912) ………. Na.

**Clogwyn Gafr SH 636556**

Mae'r enw yn cyfeirio at unigolyn; ond, mae yna nifer o eifr yn y dyffryn. Yn y gorffennol, ar fapiau, ac mewn llyfrau dringo, gelwir y clogwyn hwn ar gam fel Craig Fach.

**Clogwyn y Garnedd SH 612544**

Mae'r clogwyn yn union islaw copa'r Wyddfa, safle gyda charnedd anferth ar un adeg; neu, yn gyfeiriad at ffurf byramidaidd carneddol y copa. Klogwyn Karnedh y Wydhva 1722 Britannia, E Lluyd.

**Clogwyn y Gwin SH 576536**

Mae gwin yn ffurf lygredig eithaf cyffredin y gair *gwyn* 'llwydwyn, llwyd golau' yn y dirwedd. Ond,

Mynyddoedd.co.uk

o bob tebyg, fe all gysylltu'r elfen *gwin* gyda *gwinau* 'llwytgoch, cochlyd' gyda'r enw, oherwydd lliw y creigiau; nid yw'n debygol iawn fod y clogwyn i'w gysylltu â chynhyrchu gwin; os nad roedd yn fan i gasglu'r ffrwythau i wneud Gwin Ysgaw. Clogwyn y gwin 1673 Llawysgrifau Nannau, Clogwyn-y-gwin 1838 AO.

**Clogwyn Llechwedd Llo SH 588564**
Mae clogwyn *llechwedd* 'allt, bron' + *llo* 'epil buwch', unwaith eto yn gyfeiriad at bresenoldeb da byw allan yn y mynyddoedd. Ar un adeg yr oedd gwartheg allan ar y mynydd drwy'r flwyddyn, ond y cawsant eu gyrru i mewn i'r buarth, sef *bu* 'gwartheg' + *(g)arth* 'lloc' gyda'r nos i'w cadw'n ddiogel rhag bleiddiaid. Gellir gweld nifer o'r 'llociau' buarthau hyn o hyd fel waliau cerrig mawr, sydd bellach wedi'u difetha; hefyd, y tebygrwydd yw bo sawl corlan defaid yn fuarthau ar un adeg.. Yn gynnar byddai'r ffermwyr yn defnyddio llociau drain ac roeddent i fyny ar lethrau'r bryniau yn hytrach nag yn y cymoedd coediog peryglus gyda dim porfa.

**Clogwyn Mawr SH 594586**
Yn syml *clogwyn* 'craig' + *mawr* 'eang, uchel'; ond, erbyn hyn dylai rhywun wedi nodi bod llawer o greigiau gyda'r enw clogwyn yn yr ardal yn hytrach na thermau eraill posibl e.e.. carreg, gallt. Gall hyn fod oherwydd y nifer y clogwyni serth yma yn yr ardal; neu effaith defnydd tafodieithol lleol.

**Clogwyn Melyn SH 625506**
Term lliw arall a ddefnyddir yn y Gymraeg i ddisgrifio lliwiau sydd yn amrywio o felyn hyd at y lliw brown; gair cyffredin iawn yn y tirwedd.

**Clogwyn Pen Llechen SH 642546**
Gall y term *llechen* 'maen llym, llechi' ddynodi craig esmwyth, a dyna'n union beth sydd ar gael yn y man.

**Clogwyn y Person SH 617554**
Yn ôl y son, person 'rheithgor', sef benthyciad o'r Saesneg Canol *person(e)* 'parson', anhysbys oedd y person cyntaf i ddringo'r gefnen sy'n arwain at y copa.

**Clogwyn y Wenallt SH 647527**
Mae'n debyg mai'r agwedd sy'n gyfrifol am enw'r clogwyn, wrth edrych i fyny o'r dyffryn, rhain oedd y llethrau cyntaf i ddal yr haul; felly, *(g)wen* 'gwyn, llachar' + *allt* 'craig, llethr coediog'.

**Craig Ddu SH 618526**
Craig sydd yn ddu oherwydd ei wlybaniaeth, ond mae'r graig yn o dywyll hefyd, felly nid *du* 'cysgodol'.

**Craig yr Aderyn SH 640544**
Gallai'r enw fod yn ddigon syml, gydag aderyn fel enw ar fan ble roedd adar yn ymgynnull. Fodd bynnag, unigol yw'r gair aderyn; gallai ganiatáu'r synnwyr o debygrwydd y graig i ffurf aderyn; chwedl leol yn ymwneud â'r graig neu arwyddocâd mytholegol gynt.

**Crib y Ddysgl SH 615552**
Fe'i gelwir yn lleol fel Y Grib Ddesgil; gyda desgil fel ffurf amrywiol y gair *dysgl* 'powlen', gair a fenthycwyd o'r Lladin *disculus*. Mae'r *crib* 'brig, cefnen' yn ffurfio gwefus y ddysgl, hynny yw, siâp bowlen y cwm 'peiran' neu cirque rhewlifol.

Nid fel: *'Krib y Diskil – Called so corruptly perhaps for Krib y Distilh; for water drops down this precipice'* 1722 Britannia, E Lluyd.

Mynyddoedd.co.uk

**Diffwys Ddu SH 614560**
Diffwys Ddu yw'r enw cywir, *diffwys* 'dibyn' o *di-* 'heb ddiwedd' + *affwys*`dyfnder. Yr enw a roddwyd i'r clogwyn gan ddringwyr ar un adeg oedd Cyrn Las. Mae'r gwir fynydd Cyrn Las i'w weld uwch y clogwyn, mynydd gyda ffurf côn iddo pan yr edrychir o'r dyffryn.

**Diffwys Ddŵr SH 621561**
*Diffwys* 'dibyn' + ddŵr yw'r enw cywir ar y clogwyn; ond, yr enw a roddir i'r graig hon gan ddringwyr yw Craig y Rhaeadr.

**Dinas Fach SH 632560**
Mae'r *dinas* 'caer' + fach hon, yn graig fach o'i chymharu â Dinas Mot gerllaw.

**Dinas Mot SH 626564**
Mae'r clogwyn trawiadol hwn yn ffurfio gwrthbwynt naturiol i Ddinas Cromlech ar ochr arall y dyffryn. Ceir chwedl leol fod y Mot dan sylw yn gawr a oedd yn byw yn y ddinas 'caer'. Mae'r enw Mot yn un diddorol, fel arfer mae'n enw sy'n cael ei ddefnyddio i enwi cŵn; mae rhai wedi ei gysylltu â chawr, eraill â bwystfil mytholegol tybiedig yn gwarchod Annwn 'yr arallfyd'.

Dinas Spot yw'r enw a roddir yn y rhestr o enwau yn Nyffryn Peris gan Mr. John E Jones, yn yr erthygl 'Taith o Lanberis i Gwmdyli' yn yr Herald Cymraeg, Awst 1914 (sydd yn wefan y Llyfrgell Genedlaethol). Yr oedd yn gyfarwydd iawn â'r ardal oherwydd fe'i magwyd yn un o'r tai a oedd yng Norffwysfa (Pen y Pass) ar un adeg. Oes yna gysylltiad yn yr enwau Mot/Spot at wn neu fwystfil chwedlonol? Rhaid nodi bo Mot yn enw cyffredin ar gi. Rhaid cofio'r Wyddeleg *mad/mat* 'ci, blaidd', sydd dal ar gael yn *madadh* 'ci gwyllt' a *madadh-ruadh* 'llwynog'.

**Gallt y Llyn SH 620502**
*Gallt* 'clogwyn, llethr coediog' + *llyn* - sef Llyn Dinas. Fodd bynnag, mae'r clogwyn yn cael ei adnabod yn lleol wrth yr enw Craig y Llyn, roedd hwn i'w weld ar y gyfres mapiau 6" 1888-1915 AO.

**Llechog SH 598538, SH 607568**
Gall y term hwn ddisgrifio craig lyfn ei wedd; neu, un gyda haenau o greigiau ar osgo; yr ail sy'n berthnasol yma.

**Muriau Gwelltog SH 551567**
*Muriau* 'waliau' + *gwelltog* 'llawer o wellt, glaswelltog'; yn gywir, mae yna llawer o lystyfiant ar y clogwyn.

**Y Diffws SH 548574**
Ffyrf amrywiol ar y gair diffwys, cyfeiriad at ddibyn dwfn; cyfuniad o'r rhagddodiad negyddol *di-* 'heb ddiwedd' + *affwys* `dyfnder'; i roi syniad o glogwyn mawr.

**Ysgar SH 631556**
Nid *ysgar* 'rhan, darn' yw hyn; ond, ffurf lygredig lleol ar y gair *esgair* 'cefnen' gan fod yr enw yn dynodi sbardun creigiog sy'n arwain i lawr o Grib Goch.

Mynyddoedd.co.uk